Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymunedol Bancffosfelen

Dyddiad yr arolygiad: 21/09/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Crynodeb

Mae staff Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol i ddisgyblion. Maent yn hyrwyddo gofal a lles yn effeithiol ac yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â'r disgyblion sy'n hyrwyddo'r dysgu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ymddygiad cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn eu cefnogi i ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn, ac mae staff yn cydweithio'n effeithiol i wireddu gweledigaeth yr ysgol. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddathlu profiadau dysgu'r disgyblion gyda rhieni a'r gymuned yn ehangach.

Mae staff yn darparu cwricwlwm cynhwysfawr ac ysgogol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn fedrus. Maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn paratoi tasgau priodol er mwyn cefnogi eu cynnydd o'u mannau cychwyn amrywiol. Er hyn, nid yw'r tasgau'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigon effeithiol bob amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd da. Maent yn darllen yn hyderus, yn mwynhau ystod eang o destunau ac yn ysgrifennu at wahanol ddibenion. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n gyson yn ystod eu hamser yn yr ysgol, ond nid yw'r disgyblion bob amser yn adeiladu ar eu medrau llafar a chyfathrebu yn ddigon effeithiol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn defnyddio prosesau hunanwerthuso effeithiol i adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Maent yn darparu dysgu proffesiynol i staff yn fuddiol er mwyn cefnogi eu datblygiad yn dda. Mae partneriaethau cryf â rhieni, y cylch meithrin a'r ysgolion uwchradd yn cefnogi disgyblion i baratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Parhau i ddatblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion

A2 Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/11/2026